


# Helpu Plant i Ddarllen yng Nghyfnod Allweddol 2



Llawlyfr  
i Rien



## **YSGOL BRO PLENYDD**

### **CANLLAWIAU I RIENI - SUT GALLAF HELPU FY MHLENTYN GYDA'I DDARLLEN?**

Bwriad y pamffled hwn yw dod â ni fel athrawon, a chithau fel rhieni, at ein gilydd i hybu'r broses a'r arfer o ddarllen.

#### **CYFLWYNIAD**

Dengys ymchwil bod gennych chi fel rhieni rôl werthfawr i'w chwarae yn natblygiad addysgol eich plentyn. Mae hyn yn arbennig o wir gyda darllen.

Wedi'r cyfan, chi yw addysgwyr cyntaf eich plentyn ac 'rydych wedi cefnogi ei ddatblygiad o'r crud. Mae eich rôl yr un mor dyngedfennol pan mae eich plentyn yn mynychu'r ysgol.

Mae partneriaeth iach rhwng rhieni ac athrawon yn allweddol i ddatblygiad y plentyn yn yr ysgol.

Mae darllen yn sgil greiddiol ac yn sail i bopeth arall fydd plentyn yn ei wneud yn yr ysgol. Os nad yw plentyn yn darllen yn llwyddiannus, y tebygrwydd yw y bydd yn profi trafferthion mewn meysydd eraill hefyd.

Cred llawer mai'r amser i helpu plentyn gyda'i ddarllen yw reit ar y cychwyn un pan fydd yn dysgu darllen. Ac unwaith y bydd wedi dysgu darllen ac yn ddarllenwr da – nad oes angen helpu ymhellach. Camsyniad yw hyn. Nid darllen geiriau yn gywir heb wneud camgymeriadau yn unig yw darllen – darllen yw deall a mwynhau y testun. Felly, gallwch fel rhieni wneud llawer i ddatblygu darllen eich plentyn ymhellach drwy rannu ei ddarllen gydag ef – a thrafod yr hyn mae'n ei ddarllen er mwyn hyrwyddo ei ddealltwriaeth o'r testun.

#### **EICH PLENTYN YN DYSGU DARLLEN**

**Y chi yw athrawon cyntaf eich plant.** Mae beth yr ydych chi yn ei wneud gartref yn holl bwysig yn natblygiad darllen eich plentyn. Yma cynigir syniadau a gwybodaeth er mwyn i chi fedru helpu eich plentyn gyda'r sgil bwysig hon.

## **BETH FYDD YN HELPU FWYAF?**

**SIARAD** gyda'ch plentyn am bethau a digwyddiadau cyffredin. **Ni ellir gor-bwysleisio pwysigrwydd siarad.** Mae lle i gredu bod rhieni yn siarad llai gyda'u plant oherwydd dylanwad y teledu a thechnoleg ddiweddar. Mae holi, stilio a phrocio yn datblygu iaith plentyn, yn ymestyn geirfa ac yn help yn y broses o ddysgu darllen. Mae iaith lafar dda yn creu ysgrifennwr rhwydd a chywir yn nes ymlaen.

**GWRANDO** ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud. Mae'n bwysig rhoi cyfle i blant ddweud eu storiâu a mynegi eu profiadau ac mae'n bwysig ein bod yn ymateb. Mae iaith pawb yn gwella wrth iddo arfer ei defnyddio. Wrth i iaith plentyn dyfu caiff hyn ddylanwad ffafriol ar ei waith ysgrifennu yn yr ysgol.

**DARLLEN** iddynt. Credir bod llai o rieni yn yr oes hon yn darllen i'w plant. Mae'r teledu yn rhy hwylus o lawer. Nid oes unrhyw baratoad yn well ar gyfer plant na darllen peth myrdd o storiâu difyr iddynt. Mae stôr o wybodaeth a difyrrwch i blant mewn llyfrau. Gall darllen llyfr ddatblygu'r dychmyg, gall greu agwedd iach at lyfrau ac, fel y dywedwyd, mae'n baratoad hynod effeithiol ar gyfer gwaith eich plentyn yn yr ysgol.

## **PA BRYD DDYLWN I DDECHRAU?**

'**R**wan! Gadewch i'r plentyn eich gweld chi yn mwynhau llyfr. Darllenwch arwyddion mewn siopau neu yn y stryd gyda'ch plant. Os yw plentyn yn rhannu'r pleser o ddarllen gyda'i rieni yna, mae'n cael cychwyn da. Mae'n bwysig bod y plentyn yn dod i ddeall mai nid gweithgaredd i'w wneud fel rhan o waith ysgol yn unig yw darllen ond bod galw am y sgil o ddarllen o'i gwmpas ym mhob man.

## **BETH DDYLAI FY MHLENTYN WYBOD?**

Yn ystod ei flynyddoedd cyntaf yn y Dosbarth Meithrin a Derbyn bydd y plentyn wedi dod i arfer clywed storiâu yn cael eu darllen. Bydd, o ganlyniad, yn 'chwarae' neu'n 'cogio' darllen llyfr gan droi tudalennau a dweud y stori. Gall ddangos i chi lle i ddechrau darllen a sut i ddal y llyfr yn gywir. Dysgodd rai pethau am lyfr yn barod ac mae wedi cael cychwyn da. Cofiwch fod pob plentyn yn dysgu ar gyflymder gwahanol. Mae rhai plant yn dangos ychydig iawn o ddiddordeb mewn llyfrau, ond mae yna ddigon o ffyrdd bach cyffredin, bob dydd o'u meithrin a'u hannog.

## **BETH DDYLWN EI WNEUD WEDYN?**

Dewiswch hoff lyfr gydag ond ychydig o frawddegau ynddo a rhowch y plentyn ar eich glin er mwyn iddo allu gweld y geiriau. Darllenwch yn araf gan osod eich bys dan y geiriau. Gwnewch hyn nifer o weithiau a gofynnwch i'r plentyn ddweud un neu ddau o'r geiriau ar eich ôl. Gallwch ddarllen mwy wrth i'r plentyn ddangos diddordeb. Ffordd arall o hybu diddordeb yw drwy baratoi nifer o eiriau ar gerdyn (**gyda llythrennau bach**), e.e. mam, dad, mae, a, yn, y, car, tŷ, gwely, Elen, Siôn, dyma, Nain, 'Rydw i'n hoffi. Gellir aildrefnu'r geiriau i ffurfio brawddegau. Fel hyn mae'r plentyn yn cofio'r gair cyfan ac yn cael ystyr o'r frawddeg. Mae dysgu nifer o eiriau ar y cof fel hyn yn rhoi cychwyn da.

## **COFIWCH BEIDIO Â...**

...gorfodi eich plentyn ddarllen  
..defnyddio sŵn llythyren i ddarllen gair ar y cychwyn, nid yw'r plant yn barod am hyn  
...defnyddio llythrennau mawr  
...gwneud gormod a gwneud y gwaith yn anniddorol.

## **COFIWCH..**

...ganmol ac annog y plant yn ddoeth  
...ymateb mewn ffordd gefnogol a phositif i'w ymdrechion, fel y gwnaethoch pan oedd yn dechrau siarad (e.e. Gwych! Campus! Da iawn! Go dda! Gwerth chweil!)  
... gyfeirio at lythyren unigol os oes cysylltiad rhwng y llythyren honno a byd y plentyn, e.e. yn ei enw.

## **WEDI I'M PLENTYN GYCHWYN, BETH NESAF?**

- Daliwch ati annog a chanmol.
- **Peidiwch â chymharu eich plentyn â'i frawd neu ei chwaer hyn neu â phlentyn arall - cofiwch, mae pawb yn wahanol.**
- Peidiwch â chuddio'r lluniau er mwyn canolbwyntio sylw ar y geiriau; mae'r lluniau'n bwysig.
- Darllenwch lyfrau ar y cyd gan rannu'r pleser.
- Ceisiwch gael y plentyn ddyfalu beth sy'n dod nesaf - **mae hyn yn hynod bwysig.**

## **BETH OS YW FY MHPLENTYN YN GWNEUD CAMGYMERIAD?**

Os yw'n darllen ag ystyr peidiwch â'i gywiro. Os yw, e.e., yn dweud:  
"Mae'r dyn yn y **goedwig**" yn lle "**yn y goeden**" peidiwch â thrafferthu ei gywiro.  
Ond pe bai'n darllen "Mae'r dyn yn y **fferm**" gellid dangos i'r plentyn bod angen gair sydd yn dechrau gyda 'g'. Gall hyn fod yn waith anodd. Os nad yw plentyn yn gwybod beth yw'r gair, mae'n hawdd dweud wrtho er mwyn cadw rhediad y stori.

## Darllen a chi

- Gadewch i'ch mab neu'ch wyr eich gweld **CHI** yn darllen, yn enwedig os ydych chi'n dad neu'n daid.
- Pan fydd gartref gyda chi, beth am ofyn iddo eich helpu? Er enghraifft, gallai ddarllen taflenni cyfarwyddiadau i chi, neu ddewis beth i'w wyllo ar y teledu. Mae bechgyn yn hoffi gwybod mai nid ond rhywbeth i'w fwynhau yw darllen ond ei fod hefyd yn rhywbeth sy'n eu helpu gyda thasgau bob dydd.
- Siaradwch am y math o ddarllen ac ysgrifennu rydych chi'n ei wneud yn eich gwaith (yn enwedig y tadau). Dangoswch enghreifftiau iddo o'r hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud.

## Darllen stori i'ch mab neu'ch wyr a darllen gyda fo

- Darllenwch lyfr i'ch mab.(Mae hyn yn cynnwys **TADAU** hefyd.)
- Mae'n well dechrau darllen i'ch mab pan fydd yn ifanc iawn ond gwell hwyr na hwyrach. (Mae na lyfrau da iawn ar gyfer babanod!) Daliwch ati hyd yn oed pan fydd ar fin cyrraedd ei ardegau (os yw'r ddau ohonoch chi'n dal i gael blas ar hyn.)
- Gadewch i'ch mab/wyr ddewis beth mae eisiau i chi ei ddarllen iddo fo yn ogystal â dewis llyfrau i'w ddarllen ei hun.
- Chwiliwch am rywbeth sydd o ddiddordeb iddo. Nid pob bachgen sy'n hoffi nofelau. Mae llawer o fechgyn yn hoffi storïau antur a ffuglen wyddonol. Maen nhw hefyd yn hoffi storïau gwir am ddynion go-iawn. Llyfr da i fachgen yw llyfr mae e eisiau ei ddarllen!
- Mae comics, gwefannau, papurau newydd, llyfrau jôcs a llyfrynnau cyfarwyddiadau i gyd yn dda ar gyfer ymarfer darllen.
- Rhowch docyn llyfr yn anrheg i'ch mab neu'ch wyr er mwyn iddo fo allu dewis beth mae o am ei ddarllen gartref.

## Os yw eich mab yn cael trafferth i ddarllen

- Treuliwch gyfnod byr (tua 10 munud) bob dydd yn gwrando arno'n darllen i chi, a'i helpu gyda geiriau anodd. Cofiwch, rhaid i'r sesiynau hyn fod yn fyr ac yn hwyl ac nid yn rhyw fath o gosb!
- Gadewch iddo ddewis beth i'w ddarllen. Gallai fod yn rhywbeth ar y we yn hytrach na llyfr. Os yw'n dewis rhywbeth sydd i'w weld yn rhy hawdd, efallai nad yw'n teimlo'n sicr iawn o'i allu i ddarllen a bod angen iddo gael ei ganmol a'i annog.
- Anogwch ef i daclo'r geiriau anodd drwy ddefnyddio synnwyr y frawddeg i'w helpu, drwy rannu'r gair yn ddarnau llai neu drwy geisio ynganu'r gair.
- Os yw'n dal i gael trafferth i ddarllen gair anodd, helpwch o.
- Dylech ganmol eich mab pan fydd yn darllen yn gywir a'i annog pan fydd yn ei chael hi'n anodd.
- Rhannwch y darllen yn ystod y sesiynau byr hyn – chi'n darllen ychydig a fo'n darllen rywfaint wedyn. Os yw'r stori'n dda ond y darllen yn rhy anodd iddo, darllenwch y stori iddo fo.
- Os oes amser gyda chi, gallwch ddod â'r sesiwn i ben drwy ddarllen i'ch mab neu sôn wrtho am yr hyn rydych chi'n hoffi ei ddarllen a pham.
- Gofynnwch i athro/athrawes eich mab awgrymu beth arall y gallwch chi ei wneud i'w helpu i wella ei ddarllen.

## WEDI FY MHLENTYN DDYSGU DARLLEN

### SUT GALLAF HELPU?

Mae'n hawdd credu nad yw'r plentyn angen gymaint â hynny o help gyda'i ddarllen ar ôl iddo ddysgu. **Ond mae hyn yn gamgymeriad. Mae'ch plentyn angen help ac anogaeth gyda'i ddarllen drwy'r ysgol gynradd ac wedyn.**

Pan ddaw plentyn i ddarllen yn ddigon da iddo allu darllen yn annibynnol, mae yna berygl i'w ddatblygiad fel darllenwr arafu os nad ydyw yn parhau i ddarllen yn rheolaidd, yn cael gafael ar lyfrau sy'n ei ddiddori a'i gyffroi ac yn cael pleser a mwynhad o ddarllen.

Mae gan athro/athrawes a rhieni'r plentyn rôl bwysig i'w chwarae i sicrhau parhad y datblygiad. Dylai'r ysgol a'r cartref gadw llygad parhaus ar ddarllen y plentyn gan sicrhau bod ganddo/ganddi lyfr y mae'n ei ddarllen yn ddyddiol ac yn ei fwynhau.

Yn yr ysgol bydd yr athro/athrawes dosbarth yn:

- sicrhau bod yna gyflenwad o lyfrau cyfoes amrywiol a deniadol yn y dosbarth i'r plant ddewis ohonynt
- sicrhau ei fod yn adnabod yr hyn mae plentyn unigol yn ei hoffi, e.e. efallai fod un plentyn yn hoff o nofelau pêl-droed ac un arall am geffylau
- sicrhau bod gan bob plentyn lyfr darllen sy'n addas i'w oedran a'i safon darllen – sydd ddim yn rhy hawdd ond, eto, yn ymestynnol heb fod yn rhy anodd
- sicrhau bod y plentyn yn darllen yn rheolaidd.

(Yn hyn o beth, mae cefnogaeth rhieni yn holl bwysig. Gall athro/athrawes sicrhau profiadau darllen i'r plentyn yn yr ysgol ond y **chi, fel rhieni, yw'r unig rai a all sicrhau bod eich plentyn yn darllen gartref.**)

### **BETH ALL RHIANT EI WNEUD I HYBU DARLLEN EI BLENTYN?**

- Cymryd diddordeb yn y llyfr mae'n ei ddarllen; siarad amdano gyda'r plentyn - beth sy'n digwydd ynddo/pwy yw'r cymeriadau/ydio'n dda/wyt ti'n ei fwynhau?
- Gwranddo ar y plentyn yn darllen.
- Cyd-ddarllen gyda'r plentyn – y plentyn yn darllen ambell i dudalen a'r rhiant yn darllen y rhai eraill.
- Mynd i chwilio am lyfrau sy'n ei ddiddori gyda'r plentyn un ai i lyfrgell neu siop llyfrau.
- Rhoi bri ar ddarllen – dangos i'r plentyn eich bod yn meddwl fod darllen yn bwysig ac yn beth gwerth chweil i'w wneud. **Mae'r negeseuon a ddaw oddi wrth rieni yn dylanwadu ar blentyn yn fwy na dim arall.**
- Cadw llygad rheolaidd ar faint mae o'n ei ddarllen gartref a beth mae'n ei ddarllen.
- Ei helpu gyda darnau anodd mewn llyfr drwy ddarllen y darnau hynny iddo er mwyn iddo ddal ei afael yn rhediad y stori.
- Sicrhau ei fod yn dewis llyfrau addas iddo'i hun i'w darllen.
- Darllen llyfrau iddo sydd ychydig yn rhy anodd iddo ei ddarllen ei hun ar hyn o bryd llenwi'r ffurflenni sylwadau a ddaw adref o'r ysgol - er mwyn i ni fel athrawon a chithau fel rhieni feithrin dealltwriaeth o ddarllen eich plentyn er mwyn gallu datblygu ei ddarllen ymhellach a chofiwch mai partneriaeth rhwng yr ysgol a'r cartref yw datblygu darllen eich plentyn.

### **BETH OS YW FY MHLENTYN YN ANFODLON DARLLEN?**

Os yw'r ysgol a'r cartref yn gwneud eu gorau i ddatblygu darllen plentyn o'r cychwyn ddylai'r plentyn droi at lyfr o'i wirfodd. Ond nid yw hyn yn digwydd bob amser.

Mae rhai plant yn ddarllenwyr naturiol – wrth eu bodd gyda llyfrau ac yn darllen pob cyfle a gânt. Ar y llaw arall, ceir plant sy'n anfodlon troi at lyfr o gwbl.

Mewn achosion fel hyn, mae'n hanfodol fod yr ysgol a'r cartref yn cydweithio i geisio datrys y broblem. Mae'n rhaid gofyn i'r plentyn pam nad yw'n hoffi darllen. Efallai mai un o'r problemau yw nad yw'n gallu cael gafael ar lyfr sy'n ei gyffroi a'i ddiddori ddigon.

Beth bynnag yw'r broblem – gall yr ysgol a'r cartref wneud llawer i sicrhau bod y plentyn yn dod i ddarllen rhywfaint yn rheolaidd.

### **CYN GORFFEN, PWYNTIAU CYFFREDINOL**

- Ceisiwch wrando ar eich plentyn yn **darllen bob dydd, os yw hynny'n bosibl.**
- **Rhaid i blant ymarfer yn gyson, mwya'n y byd o ymarfer, gorau'n byd.**
- Nid yw'n bosib i'r athro dosbarth dreulio mwy nag ychydig funudau bod dydd gyda phlant unigol ond gallwch hybu llawer ar ddarllen eich plentyn drwy rannu'r gwaith.
- Mae'n bwysig, hefyd, bod plentyn yn profi llwyddiant.

## **OND...**

- peidiwch â bod yn orawyddus, yn arbennig gyda phlant ifanc - gallwch ddifetha'r awydd
- ceisiwch wneud y gwaith yn bleserus i'r ddau ohonoch
- cadwch yn glir o lyfrau rhy anodd
- peidiwch â cheisio camu i lefel uwch yn rhy fuan
- darllenwch dudalen bob yn ail er mwyn cynnal diddordeb
- os yw'r plentyn yn blino, gorffennwch y stori eich hun.

## **LLENWI'R FFURFLEN SYLWADAU**

Mae llenwi'r bwloch sylwadau yn llyfr cofnodi darllen eich plentyn yn arfer gwerth chwil. Bydd disgwyl i'r plentyn yn CA2 ysgrifennu ychydig hefyd am ei argraffiadau o'r llyfr. Mae'r ymarfer yma yn un pwysig. Un o amcanion yr athrawon yn y ddau ddsbarth hynaf yw ceisio cael y plant i **feddwl** am eu darllen – i roi barn am lyfr a beirniadu y stori a'r cymeriadau. Felly, yn ystod y flwyddyn disgwylir i sylwadau'r plentyn ddatblygu. Mae gennych chi fel rhieni rôl bwysig i sicrhau hyn. Dylech drafod gyda'r plentyn yr hyn mae am ei ysgrifennu am y llyfr ac, yna, taro golwg ar ei sylwadau ar ôl iddo eu cofnodi. Mae'n bwysig eich bod yn cydweithio gyda'r ysgol i annog y plentyn ysgrifennu yn ystyrlon a pheidio ag ailadrodd ei sylwadau o wythnos i wythnos. Mae'n arfer ardderchog hefyd i chi sicrhau bod y plentyn yn parchu'r llyfr cofnodi – yn ysgrifennu yn ei lawysgrifen daclusaf ynddo ac yn edrych ar ei ôl.

## **Y RHIAINT YN LLENWI'R BLWCH SYLWADAU**

Dyma ffordd hwylus iawn i'r rhiant gyfathrebu â'r ysgol ynglŷn â darllen ei blentyn. Bydd yr athrawon dosbarth yn darllen sylwadau'r plentyn a'r rhieni yn rheolaidd ac maent yn werthfawr iawn iddynt.



## Pethau y Gallwch eu Hysgrifennu

- Sut oedd eich plentyn yn darllen?
- Oedd o'n cael trafferthion?
- Beth oedd yn peri trafferthion iddo?
- Oedd y llyfr yn rhy anodd/hawdd?
- Wnaeth o fwynhau'r stori?
- Oedd o'n darllen yn awchus?
- Ym methu rhoi'r llyfr i lawr?
- Ydi'r plentyn eisiau darllen mwy o lyfrau tebyg?
- Oedd yn llyfr yn ddiflas?
- Oedd y plentyn yn cael trafferth mynd trwyddo/yn anfodlon mynd ato?

## COFIWCH...

- bydd yr ysgol yn adrodd yn swyddogol wrthych ar ddarllen eich plentyn ar gychwyn y flwyddyn ysgol (Tymor yr Hydref) ac, yna, ym mis Ionawr (cyfarfod rhieni ac athrawon) ac unwaith eto ar ddiwedd y flwyddyn (cyfarfod rhieni ac adroddiad blynyddol)
- mae'r ysgol yn **awyddus iawn** i drafod unrhyw bryderon sydd gan riant ynglŷn â darllen ei blentyn. Croesawir chi i gysylltu â'r athrawon dosbarth unrhyw amser i drefnu amser i drafod.
- Bydd yr athrawon, hefyd, yn barod i gynnig cyngor.
- Mae dewis helaeth o lyfrau amrywiol ar gael yn yr ysgol. Y nod yw ychwanegu at y stoc yn flynyddol – er mwyn sicrhau toreth o lyfrau gwerth chweil ar gyfer y plant.
- Bydd yr ysgol yn cynnal ffair lyfrau Saesneg yn yr Hydref ac un Gymraeg yn ystod y Gwanwyn i roi cyfle i chi fel rheini gael golwg ar y llyfrau diweddaraf gyda'ch plentyn. Cynhelir wythnos lyfrau yn flynyddol – ble rhoi'r proffil uchel i lyfrau drwy weithgareddau amrywiol a diddorol.
- Bydd pob plentyn yn cael benthyg llyfr o'r ysgol yn wythnosol.

Er mwyn i hyn weithio yn llwyddiannus, mae'n rhaid i mi apelio arnoch i sicrhau y perchir y llyfrau a'u bod yn cael eu dychwelyd. Os yw'n bwrw, mater o gwrteisi yw gosod y llyfr mewn bag plastig.

## CYN TERFYNU

**Erystal y darllena'r plentyn**, mae'n bwysig i chi ddal ati i ddarllen storïau iddo. Mae clywed stori dda yn fodd o hybu datblygiad y meddwl a'r emosiwn a chyfoethogi bywyd pob plentyn.